

Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau canllaw arferion da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol:

*Canllaw ar y defnydd o Ganlyniadau Derbyniol
mewn Addasrwydd i Ymarfer
Canllaw ar Lunio rheolau*

22 Ionawr 2024

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoedd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Cyn i chi ddarllen y ddogfen hon

Cynlluniwyd y ddogfen ymgynghori hon i'ch helpu i ymateb i'n cwestiynau ar ddau faes cymhleth o ddiwygio rheoleiddio. Rydym yn defnyddio **un** arolwg i gasglu eich barn ar **ddwy** ddogfen ganllaw.

Dylai'r ddogfen hon eich helpu i ddeall:

- Y rhesymeg sy'n sail i'r diwygiadau
- Ein rôl o fewn diwygio rheoleiddio
- Pam rydym yn ymgynghori
- Pwrpas ein dau ddarn o ganllawiau a'r hyn y gobeithiwn y byddant yn ei gyflawni.

Mae hefyd yn nodi cwestiynau'r ymgynghoriad (mae'r rhain hefyd i'w gweld yn llawn yn Atodiad A). Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- Rhai cwestiynau cyffredinol amdanoch chi
- Trosolwg byr o bob canllaw – a chwestiynau cysylltiedig i chi ymateb iddynt.

Yn olaf, mae'n dweud wrthy ch y pethau pwysig mae angen i chi eu gwybod:

- Sut i ymateb i'r ymgynghoriad
- Sut rydym yn ymdrin â chyfrinachedd
- Mwy am y broses.

Er bod yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i'r ddau ddarn o ganllawiau, dim ond y cwestiynau yr ydych yn dewis eu hateb y mae angen ichi ymateb iddynt. Nid oes rhaid i chi ymateb i'r cwestiynau am y ddwy ddogfen ganllaw. Fodd bynnag, **a fyddech crystal** ag ymateb i'r tri chwestiwn cyntaf sy'n berthnasol i'r ddwy ddogfen ac i'r holl ymatebwyr.

Tabl Cynnwys

Cefndir a chyd-destun

▶ [Cyflwyniad](#)

▶ [Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn](#)

Y cyfarwyddyd

▶ [Cwestiynau ac atebion](#)

Yr ymgynghoriad

▶ [Sut mae'r ymgynghoriad wedi'i osod allan](#)

▶ [Yr ymgynghoriad ei hun](#)

▶ [Sut i ymateb i'r ymgynghoriad](#)

▶ [Cyfrinachedd](#)

▶ [Ein proses ymgynghori](#)

▶ Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad yn llawn

▶ Atodiad B: Mesur llwyddiant yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer diwygio

Cefndir a Chyd-destun

Cyflwyniad

► Ein rôl mewn rheoleiddio

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn amddiffyn y cyhoedd trwy ein gwaith gyda sefydliadau sy'n cofrestru a rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002 (fel y'i diwygiwyd).

Mae tri phrif faes i'n gwaith:

- Rydym yn goruchwyllo gwaith y 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Rydym yn achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Ein nod yw gwella rheoleiddio trwy ddarparu cyngor i lywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill, cyflawni neu gomisiynu ymchwil a hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.

► Pam rydym yn ymgynghori â chi

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn ceisio eich barn ar ddwy ddogfen ganllaw ddrafft yr ydym wedi'u cynhyrchu i gefnogi rheolyddion i ddefnyddio eu pwerau newydd o ran llunio rheolau ac addaswydd i ymarfer. Daw'r pwerau newydd hyn i rym ar ôl cyflwyno'r diwygiadau i ddeddfwriaeth rheoleiddiwr sy'n rhan o raglen ddiwygio'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.¹

Ymatebwch i'r papur ymgynghori hwn drwy gwblhau'r arolwg ar-lein sydd ar gael [yma](#). Wrth ddefnyddio'r arolwg ar-lein, peidiwch ag anghofio cadw eich atebion pan y'ch anogir i wneud hynny.

Gallwch hefyd gyflwyno eich ymateb trwy e-bost. Wrth wneud hynny, cynhwyswch enw'r ymgynghoriad yn y llinell bwnc. Wrth gyflwyno trwy e-bost, cyfeiriwch eich ymatebion gan ddefnyddio rhifau'r cwestiynau. Dylid anfon ymatebion e-bost at: policy@professionalstandards.org.uk

Ymatebwch erbyn 5pm dydd Llun 15 Ebrill 2024.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn diwygio'r rheolyddion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

¹ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Chwefror 2020, *Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*: [Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: ymateb i'r ymgynghoriad - dadansoddiad \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Mae'n newid y ddeddfwriaeth ar gyfer naw o'r deg² rheolydd gofal iechyd proffesiynol yr ydym yn eu goruchwyllo, gan roi ystod o bwerau newydd iddynt a chaniatáu iddynt weithredu mewn ffordd wahanol iawn.

Rydym wedi cynhyrchu canllawiau i helpu'r rheolyddion i ddefnyddio eu pwerau newydd yn effeithiol – ac rydym yn ceisio eich adborth ar y canllaw hwn.

Nid yw Social Work England, y rheoleiddiwr sy'n weddill o dan ein cylch gwaith, yn dod o dan y rhaglen ddiwygio gan fod eu pwerau eisoes yn debyg i'r model sy'n cael ei gyflwyno, ond gobeithiwn y bydd y canllawiau a'ch adborth yn ddefnyddiol iddynt hwy hefyd.

► Cefndir y diwygiadau

Bydd diwygio rheoleiddio y Llywodraeth yn rhoi llawer mwy o ryddid i reolyddion benderfynu sut y maent yn gweithredu, gan gynnwys yr hyblygrwydd i osod a diwygio eu rheolau eu hunain. Bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys diwygiadau i bwerau rheolyddion a threfniadau llywodraethu. Bydd hefyd yn creu proses hollol newydd ar gyfer ymdrin â phryderon addasrwydd i ymarfer (y broses ar gyfer ymdrin â phryderon am weithwyr gofal iechyd proffesiynol).

Bydd y prif newidiadau yn cynnwys:

- **Mwy o ymreolaeth i reolyddion** – Bydd y diwygiadau yn rhoi'r hyblygrwydd i reolyddion newid y ffordd y maent yn rheoleiddio heb orfod mynd drwy'r broses araf o sicrhau cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor. Bydd hyn yn eu galluogi i addasu'n gyflymach i ddatblygiadau mewn gofal iechyd a'r modd y caiff ei ddarparu, a gwella eu prosesau. Rydym am iddynt fod â'r ystwythder hwn fel y gallant ymdrin â phwysau gweithlu a risgiau sy'n deillio o ffyrdd newydd o drin cleifion ac ariannu gofal iechyd.
- **Mwy o gysondeb rhwng rheolyddion** – Mae ymrwymiad y Llywodraeth i roi'r un ddeddfwriaeth ar waith ar gyfer yr holl reolyddion – gyda pheth teilwra lle bo angen – yn gam cyntaf tuag at eu gwneud yn fwy cyson. Mae cysondeb yn bwysig oherwydd bydd yn gwneud y system yn symlach ac yn haws i gleifion a chyflogwyr ei llywio, ac i reolyddion gydweithredu. Yr ail gam fydd i'r rheolyddion weithio gyda'i gilydd i fod yn gyson yn y modd y maent yn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.
- **Llwybr llai gwrthwynebus ar gyfer ymdrin â phryderon am weithwyr proffesiynol** – Bydd cynnig y Llywodraeth i ddefnyddio 'canlyniadau a dderbynnir', yn lle gwrandawiaadau panel, ar gyfer rhai achosion addasrwydd i ymarfer yn darparu ffordd gyflymach a llai gwrthwynebus o ymdrin â phryderon am weithwyr proffesiynol. O dan y broses 'canlyniadau a dderbynnir', bydd y rheolydd yn cynnal asesiad manwl o'r achos yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth ysgrifenedig. Os bydd yn canfod bod addasrwydd i ymarfer y cofrestrai wedi'i amharu, bydd yn gallu cynnig sancsiwn i'r cofrestrai. Os bydd y cofrestrai'n derbyn y canfyddiadau (gan gynnwys amhariad), a'r sancsiwn arfaethedig, bydd gan y rheolydd y pŵer i ddod â'r achos i ben gan ddefnyddio canlyniad a dderbynnir. Byddai hyn yn torri allan y cam o wrandawriad panel ffurfiol – er y byddai paneli yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer rhai achosion.

² Mae rheolyddion o fewn cwmpas y diwygiadau yn cynnwys: y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon.

Yn fyr, prif effaith y newidiadau hyn yw y bydd gan y rheolyddion lawer mwy o ryddid nag sydd ganddynt ar hyn o bryd i benderfynu sut i ddefnyddio eu pwerau, ac i wneud penderfyniadau unigol am weithwyr proffesiynol.

Diwygio'r amserlen hyd yn hyn:

- Hydref 2017 - Llywodraeth yn ymgynghori ar gynlluniau lefel uchel i ddiwygio rheoleiddio proffesiynol yn [Promoting professionalism, reforming regulation](#).
- Ebrill 2021 - Llywodraeth yn ymgynghori ar bolisi ar gyfer model rheoleiddio newydd yn [Regulating healthcare professionals, protecting the public](#).
- Chwefror 2023 - Llywodraeth yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio Anesthesia Cymdeithion Anesthesia (AAs) a Chymdeithion Meddygol (PAs), a'r glasbrint ar gyfer proffesiynau eraill ym maes [Rheoleiddio cymdeithion anesthesia a chymdeithion meddygol](#).

Roedd goblygiadau llawer ehangach i ymgynghoriad y Llywodraeth ym mis Chwefror i ddod â Chymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol dan reolaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Bydd y ddeddfwriaeth ar gyfer Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol yn cael ei defnyddio fel y model ar gyfer pob proffesiwn gofal iechyd arall a reoleiddir, ac yn cael ei chyflwyno fesul cam – gyda meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn debygol o fod nesaf.

► Safbwynt yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r diwygiadau hyn yn gyfle i ddod â newid mawr ei angen i'r sector. Rydym wedi galw am ddiwygio a chredwn y dylid cyflwyno'r newidiadau hyn cyn gynted â phosibl, tra'n cadw ffocws priodol ar ddiogelu'r cyhoedd.

Fel y corff goruchwylio ar gyfer y 10 rheolydd proffesiynol iechyd a gofal rydym am eu helpu i wneud y gorau o'r hyn y gall y diwygiadau hyn ei gynnig, tra'n bod yno i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau wrth iddynt godi. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad polisi blaenorol, gwnaethom argymhell newidiadau penodol i'n pwerau i gydbwysu'r rhyddid ehangach hwn. Rydym yn derbyn penderfyniad y Llywodraeth i beidio â bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn. Rydym yn cefnogi rhoi mwy o ymreolaeth i reolyddion, ond credwn fod yn rhaid i hyn gael ei gydbwysu ag atebolrwydd effeithiol.



Awgrymwyd meini prawf asesu gennym yn flaenorol i fesur a yw'r diwygiadau wedi bod yn llwyddiannus a diweddarwyd y rhain yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Orchymyn AA yn gynharach eleni.³ Rydym wedi cynnwys y rhestr lawn er gwybodaeth yn Atodiad B.

Mae datblygu'r canllawiau yr ydym yn ymgynghori arnynt yn awr yn un o'r camau yr ydym yn eu cymryd i helpu i wneud y diwygiadau yn llwyddiant a lliniaru unrhyw risgiau posibl.

Y canllaw: rhai cwestiynau ac atebion

► Pam mae'r Awdurdod yn datblygu'r ddau ddarn hyn o ganllawiau ar gyfer rheolyddion?

Un o'n swyddogaethau o dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yw hyrwyddo arfer gorau ym mherfformiad swyddogaethau rheolyddion, llunio egwyddorion sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynol da, ac annog rheolyddion i gydymffurfio â hwy. Mae hyn yn helpu amddiffyn y cyhoedd.

Fel y corff goruchwylio ar gyfer y rheolyddion, mae'r PSA mewn sefyllfa unigryw i edrych ar eu traws a darparu cyngor ar arfer gorau. Rydym wedi cynhyrchu cyngor a chanllawiau polisi o'r blaen ar feysydd gan gynnwys cynnal ffiniau rhywiol clir mewn iechyd a gofal, ymwreiddio'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol, sicrhau addasrwydd parhaus i ymarfer a dyfarniad addasrwydd i ymarfer modern ac effeithiol.

Rydym yn cynhyrchu'r canllawiau **hyn** i helpu rheolyddion i wneud y defnydd gorau o'u pwerau newydd ar ôl diwygio. Rydym wedi datblygu'r canllawiau ochr yn ochr â'r Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol (Gorchymyn AAPA)⁴, a fydd yn fodel ar gyfer diwygiadau i'r holl reolyddion eraill. Byddwn yn adolygu'r canllawiau yn erbyn darnau o ddeddfwriaeth a ddatblygir yn y dyfodol ar gyfer pob rheoleiddiwr o fewn cwrpas y diwygiadau ac yn eu diweddarau i adlewyrchu arfer da pellach sy'n dod i'r amlwg wrth i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith.

³ Awdurdod Safonau Proffesiynol 2023, *Gwella rheoleiddio ar gyfer gofal mwy diogel i bawb - Papur briffio ar ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Gorchymyn drafft Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/psa-briefing-on-government-consultation-on-draft-aas-and-pas-order.pdf?sfvrsn=228a4a20_5

⁴ Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2024/9780348255195>

► Pam ydych chi wedi dewis y meysydd penodol hyn i ganolbwyntio arnynt ar gyfer eich canllaw?

Rydym wedi dewis y meysydd hyn oherwydd ein bod yn meddwl mai cyflwyno 'canlyniadau a dderbynnir' ynghyd â phwerau llunio rheolau mwy hyblyg yw'r newidiadau mwyaf arwyddocaol a ddaeth yn sgil y diwygiadau. Dyma'r meysydd sy'n cynnwys y risgiau mwyaf posibl, ond hefyd y cyfleoedd mwyaf i hyrwyddo ymagwedd gadarn a chyson.

► Pa statws fydd gan y canllawiau?

Ni fydd gan yr Awdurdod unrhyw rôl ffurfiol yn y broses o lunio rheolau na phrosesau 'canlyniadau derbyniol'. Felly ni fydd ein canllawiau yn 'rhwymo' rheolyddion, nac yn meddu ar unrhyw statws swyddogol.

Rydym yn cydnabod bod rheolyddion unigol yn debygol o ddatblygu eu canllawiau eu hunain ar draws eu swyddogaethau rheoleiddio gwahanol. Bwriad ein canllaw yw eu cefnogi a'u harwain wrth wneud hynny.

Rydym yn cytuno y dylai fod gan reolyddion fwy o ystwythder a hyblygrwydd yn y modd y maent yn arfer eu pwerau. Nid ydym yn bwriadu cyfyngu ar yr hyblygrwydd hwn nac awgrymu unffurfiaeth anhyblyg yn y modd y mae rheolyddion yn defnyddio eu pwerau newydd ar ôl diwygio, cyn belled nad yw unrhyw anghysondeb yn tanseilio diogelu'r cyhoedd.

► Sut bydd y canllawiau yn cysylltu ag adolygiad perfformiad y PSA?

Disgwyliwn i'r berthynas rhwng ein canllaw a'n hadolygiadau perfformiad fod yn debyg iawn i'n canllawiau neu gyngor polisi arall.

Lle bo'n berthnasol, efallai y byddwn yn gofyn i reoleiddiwr am ragor o wybodaeth am ei ddull gweithredu, gan gynnwys a oedd wedi ystyried y canllawiau, a sut.

► Pwy yw targed y canllaw?

Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at y rheolyddion i'w helpu i ddatblygu eu cyngor, canllawiau a phrosesau eu hunain ar gyfer eu staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Fodd bynnag, dylai ein canllawiau hefyd fod yn hawdd i'w darllen a'u deall i gynulleidfaoedd eraill gan gynnwys unigolion cofrestredig ac aelodau'r cyhoedd a allai ddymuno ei ddarllen a chyfeirio ato.

► A ydych yn bwriadu cynnwys prawf 'lles y cyhoedd' i weld a ddylai achos fynd i wrandawriad yn eich canllawiau ar y llwybr gwaredu addasrwydd i ymarfer?

Yn wahanol i ddeddfwriaeth Social Work England, sy'n caniatáu i archwilwyr achos gyfeirio achosion at banel os yw er budd y cyhoedd, nid oes prawf lles y cyhoedd ar gyfer atgyfeirio i wrandawriad yn y Gorchymyn AAPA.

Fodd bynnag, rydym am sicrhau bod y model diwygio yn diogelu'r cyhoedd cystal â'r model presennol o leiaf; a bydd eich barn ar ystyriaethau budd y cyhoedd yn hynod ddefnyddiol yn hyn o beth. Efallai y bydd y Rheolyddion eu hunain am ystyried sut y maent yn ystyried budd y cyhoedd yn eu prosesau eu hunain.

► Pam ydych chi'n ymgynghori nawr, a sut fydd yn effeithio ar y rheolyddion hynny sydd eisoes yn y broses o ddrafftio rheolau a phrosesau newydd?

Disgwylir i'r diwygiadau gael eu cyflwyno'n ddilyniannol i bob rheolydd gofal iechyd, gan ddechrau gyda Chymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol (GMC). Gweddill y GMC (meddygon) yr NMC, a'r HCPC sy'n debygol o fod y nesaf ar gyfer diwygio.

Gyda'r broses o ddiwygio'n mynd rhagddi, nid oes amser delfrydol i'r PSA gynhyrchu canllawiau i reolyddion, gyda rhai rheolyddion eisoes yn y broses o ddrafftio rheolau ac eraill y mae diwygio ymhell i ffwrdd ar eu cyfer ac ni fyddant wedi dechrau meddwl sut i roi'r diwygiadau ar waith eto.

Nid yw'n fwriad gennym i'r canllaw hwn ohirio'r gwaith y mae'r GMC neu reolyddion eraill eisoes yn ei wneud i baratoi ar gyfer diwygio. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig datblygu ein canllawiau mewn digon o amser i gefnogi'r rheolyddion hynny sydd nesaf yn y rhestr ddiwygio ac felly rydym wedi cynhyrchu'r canllawiau hyn cyn gynted â phosibl, ar ôl i ddarpariaethau'r Gorchymyn AAPA gael eu cwblhau.

Gobeithiwn y bydd rheolyddion yn ystyried y canllawiau pan fyddant yn gallu gwneud hynny o fewn eu hamserlen eu hunain ar gyfer gweithredu'r diwygiadau. Yn yr un modd, rydym yn bwriadu ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o gyflwyno'r diwygiadau yn ymarferol wrth gwblhau'r canllawiau ac mewn adolygiadau yn y dyfodol.

Yr ymgynghoriad

Sut mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i osod allan

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o bob dogfen ganllaw a chwestiynau'r ymgynghoriad sy'n ymwneud yn benodol â phob dogfen. Mae rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad hefyd i'w gweld yn Atodiad A. Dylid darllen y ddogfen ymgynghori hon ochr yn ochr â'r dogfennau canllaw drafft.

Mae'r adran hon yn trafod:

1. Ein canllaw drafft ar addasrwydd i ymarfer (gallwch ddod o hyd i'r canllaw drafft llawn [yma](#).)
2. Ein canllaw drafft ar lunio rheolau (gallwch ddod o hyd i'r canllaw drafft llawn [yma](#).)

Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau amdanoch chi, er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i ni am bwy sy'n ymateb i'n hymgyngoriad.

Ar ddiwedd y cwestiynau, gallwch ddarganfod mwy am sut i ymateb i'r ymgynghoriad, y dyddiad cau ac ychydig mwy am y broses a sut rydym yn ymdrin â chyfrinachedd.

Yr ymgynghoriad ei hun

▮ Cwestiynau ymgynghori amdanoch chi

I'n helpu i ddeall pwy sy'n ymateb i'n hymgyngoriad, byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy amdanoch chi:

1. **Disgrifiwch eich sefydliad neu rôl [aelod o'r cyhoedd/rheoleiddiwr statudol iechyd neu ofal/Cofrestr Achrededig/corff iechyd neu ofal arall/corff cynrychioli cleifion/aelod cofrestredig corff statudol iechyd neu ofal/ymarferydd Cofrestr Achrededig/cymdeithas broffesiynol/arall]**
2. **Rhowch enw eich sefydliad, neu eich enw os ydych yn ymateb fel unigolyn.**
3. **Bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad canlyniad yr ymgynghoriad. Gall unrhyw sylwadau a wnewch gael eu cynnwys ond byddant yn cael eu gwneud yn ddiennw oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich enw chi/enw eich sefydliad. A ydych yn fodlon i'ch enw chi/enw eich sefydliad gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau cyhoeddedig? [Ydw/nac ydw]**

▮ Canllawiau drafft: Addasrwydd i ymarfer

Mae sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn 'addas i ymarfer' yn hanfodol i reolyddion gyflawni eu dyletswydd i amddiffyn y cyhoedd. Gellir diffinio addasrwydd i ymarfer fel meddu ar y gallu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.⁵ Mae'n cwmpasu 'meddu ar y sgiliau, y cymwyseddau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd priodol' i gyflawni'r rôl.

⁵ Cyngor Meddygol Cyffredinol 2023, *Fitness to practise explained*: [Fitness to practise explained - GMC \(gmc-uk.org\)](https://www.gmc-uk.org)

Lle codir pryderon am addasrwydd gweithiwr cofrestredig⁶ i ymarfer, mae rheolyddion yn dilyn proses ffurfiol i benderfynu a yw unigolyn cofrestredig yn 'addas i ymarfer' neu 'wedi amharu'. Yn fras, mae'r broses addasrwydd i ymarfer yn cynnwys y canlynol:

- Darganfod a yw'r ffeithiau wedi'u profi ac os felly a ydynt yn gyfystyr â chamymddwyn, diffyg cymhwysedd (neu seiliau eraill dros amhariad)
- Ystyried a oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer ar hyn o bryd, yn seiliedig ar dair cangen diogelu'r cyhoedd
- Penderfynu pa sancsiwn sy'n briodol i fynd i'r afael yn ddigonol â'r methiannau a nodwyd.

Pan fydd rheolydd wedi ymchwilio i bryder ac wedi penderfynu bod achos i'w ateb, bydd fel arfer yn cyfeirio'r achos at banel addasrwydd i ymarfer ar gyfer gwrandawriad. Mae paneli addasrwydd i ymarfer fel arfer yn cynnwys tri aelod annibynnol, y mae o leiaf un ohonynt yn unigolyn cofrestredig ac un person lleyg. Maent fel arfer yn eistedd yn gyhoeddus.

Mae'r Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024⁷ (Gorchymyn AAPA) yn nodi proses newydd ar gyfer ymdrin â phryderon addasrwydd i ymarfer. O dan y system newydd, gall archwilwyr achos wneud penderfyniadau terfynol ar achosion fel rhan o broses bapur, neu mewn gwrandawriad panel addasrwydd i ymarfer. Mae archwilwyr achos yn gyflogeion i'r rheolydd sydd wedi'u hyfforddi i wneud penderfyniadau teg a diduedd mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddod â Chymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol dan reolaeth yn nodi rhagor o fanylion am y newidiadau hyn a sut y bydd y system newydd yn gweithredu.

O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, mae'n debygol yn y dyfodol y bydd mwy o bryderon am weithwyr proffesiynol yn cael eu datrys gan archwilwyr achos heb fod angen gwrandawriad panel. Bydd archwilwyr achos yn cael eu grymuso i gynnal asesiad manwl o'r achos o'r wybodaeth a'r dystiolaeth ysgrifenedig a 'lle bo'n bosibl, yn gwneud penderfyniad ar amhariad ac a oes angen gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd.'⁸

Lle canfyddir amhariad, bydd archwilwyr achos yn gallu gosod sancsiwn ar yr unigolyn cofrestredig a bydd ganddynt y pŵer i ddod ag achos i ben gan ddefnyddio canlyniad a dderbynnir lle mae'r unigolyn cofrestredig yn derbyn y canfyddiadau (gan gynnwys amhariad) a'r sancsiwn arfaethedig. Bydd archwilwyr achos hefyd yn gallu gosod mesur terfynol pan na fydd unigolyn cofrestredig yn darparu 'ymateb rhesymedig' o fewn amser rhesymol. Bydd gan archwilwyr achos yr un ystod o sancsiynau ar gael iddynt â phaneli, ac ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar y mathau o achosion y gallant eu datrys.

Bydd achosion yn dal i gael eu hystyried gan baneli lle nad yw'r unigolyn cofrestredig yn derbyn y canfyddiadau a/neu'r mesur arfaethedig, neu lle 'nad yw'r archwiliwr

⁶ Mae 'cofrestrydd' yn weithiwr iechyd neu ofal proffesiynol sy'n cael ei reoleiddio gan reoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol) ac sy'n ymddangos ar ei gofrestr

⁷ Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2024/9780348255195>

⁸ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Chwefror 2020, *Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: ymateb i'r ymgynghoriad - dadansoddiad* (publishing.service.gov.uk)

achos yn gallu gwneud penderfyniad ar amhariad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae angen profi'r dystiolaeth mewn gwrandawriad.⁹

Mae'r Llywodraeth wedi datgan y bydd y newidiadau arfaethedig yn: 'darparu proses addasrwydd i ymarfer sy'n gyflymach, yn decach ac yn llai gwrthwynebus, a fydd o fudd i bob parti sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer ac, yn bwysicaf oll, yn sicrhau amddiffyniad cyflym i'r cyhoedd lle bo angen.'

Yn y pen draw, bydd y system newydd hon ar gyfer ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer yn cael ei chyflwyno ar draws y rheolyddion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi ei bwriad y 'dylai pob rheoleiddiwr feddu ar drefniadau addasrwydd i ymarfer gweddol gyson yn y dyfodol'.¹⁰

Mae'r trefniadau addasrwydd i ymarfer newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn AAPA yn weddol debyg i'r rhai a weithredir eisoes gan Social Work England sydd wedi cael y pŵer i ddatrys achosion gan ddefnyddio archwilwyr achos a gwarediadau a dderbyniwyd ers ei greu yn 2019. Fodd bynnag, yn wahanol i'r system a weithredir gan Social Work England, bydd y pwerau o dan y Gorchymyn AAPA yn galluogi archwilwyr achos i ddod i gasgliad ar amhariad.

Rydym yn gweld llawer o fanteision o ddefnyddio'r model canlyniadau derbyniol newydd, gan gynnwys ei botensial i fod yn broses gyflymach. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi nodi rhai risgiau a allai ddeillio o ddefnyddio canlyniadau a dderbynnir mewn rhai achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â chadernid, annibyniaeth a thryloywder y broses o wneud penderfyniadau mewn rhai cyd-destunau, yn ogystal ag effeithiau posibl ar hyder y cyhoedd.

Rydym am helpu rheolyddion i ystyried pa achosion yr ymdrinnir â hwy orau gan ganlyniad derbyniol, a pha rai y byddai'n well eu datrys gan wrandawriad panel. Credwn fod paneli mewn sefyllfa well i ddatrys rhai achosion oherwydd eu bod yn gallu gofyn cwestiynau i'r cofrestrai a thystion eraill. Gall hyn fod yn bwysig, er enghraifft, lle mae angen profi'r dystiolaeth, neu os oes amheuaeth ynghylch lefel y mewnwelediad a ddangosir gan y cofrestrai.

Bwriad ein canllawiau yw cefnogi rheolyddion i gynhyrchu eu canllawiau eu hunain ar gyfer penderfynwyr. Wrth ddatblygu ein canllawiau, rydym wedi defnyddio tystiolaeth ar gryfderau a gwendidau tebygol y gwahanol ddulliau o waredu achosion. Rydym wedi amlinellu'r ffactorau y gallai archwilwyr achos eu hystyried wrth benderfynu a allant wneud penderfyniad sy'n bodloni tair cangen diogelu'r cyhoedd,¹¹ neu a ddylai achos gael ei atgyfeirio i wrandawriad.

Rhennir y ddogfen ganllaw yn ddwy ran:

- Rhan I: Ffactorau i'w hystyried wrth ddefnyddio canlyniadau derbyniol: canllawiau i reolyddion

⁹ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Chwefror 2020, *Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: ymateb i'r ymgynghoriad - dadansoddiad* (publishing.service.gov.uk)

¹⁰ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Chwefror 2020, *Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad: Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, amddiffyn y cyhoedd: ymateb i'r ymgynghoriad - dadansoddiad* (publishing.service.gov.uk)

¹¹ Tair cangen diogelu'r cyhoedd yw: amddiffyn cleifion, cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, a chynnal safonau ymddygiad ac ymddygiad priodol.

- Rhan II: Cyd-destun, tystiolaeth ac esboniad o ffactorau

Mae Rhan I yn cynnwys canllawiau i reolyddion ar ddefnyddio canlyniadau derbyniol mewn addasrwydd i ymarfer. Diben y canllawiau yw cynorthwyo rheolyddion i ddatblygu eu canllawiau a'u prosesau eu hunain ar gyfer defnyddio canlyniadau derbyniol. Mae Rhan II yn cynnwys cefndir a chyd-destun i'r canllawiau, gan gynnwys manylion y newidiadau i addasrwydd i ymarfer sy'n deillio o raglen ddiwygio'r Llywodraeth i'r rheolyddion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae hefyd yn cynnwys esboniad llawnach o'r ffactorau i reolyddion eu hystyried, ynghyd â manylion y dystiolaeth greiddiol. Gallwch weld canllawiau drafft y [yma](#).

► Cwestiynau ymgynghori ar y canllawiau Addasrwydd i ymarfer drafft

4. **A ydych yn meddwl y bydd ein canllawiau addasrwydd i ymarfer yn helpu rheolyddion i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau a dderbynnir, a'u defnyddio mewn ffordd sy'n deg, yn dryloyw ac yn diogelu'r cyhoedd? [Blwch testun rhydd]**

Yn ein canllaw, rydym yn nodi ffactorau y dylai rheolyddion eu hystyried wrth benderfynu ai canlyniad derbyniol neu wrandawriad panel yw'r ffordd orau i ymdrin ag achos (gweler paragraffau 7.2-7.20 y canllawiau). Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r ffactorau hyn.

5. **Ffactor 1: 'A yw'r unigolyn cofrestredig wedi methu â derbyn y canfyddiadau a/neu'r nam?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]**
6. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn ein canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**
7. **Ffactor 2: 'A oes anghydfod ffeithiol/gwrthdaro tystiolaeth na ellir ond ei brofi'n deg mewn gwrandawriad?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]**
8. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**
9. **Ffactor 3: 'A yw cymhlethdod yr achos yn awgrymu y gallai gwrandawriad fod yn fuddiol?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]**
10. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**
11. **Ffactor 4: 'A fyddai'n fuddiol ac yn gymesur profi mewnwelediad mewn gwrandawriad?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]**
12. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**

Yn ein canllaw, rydym yn nodi rhai ffactorau y dylai rheolyddion eu hystyried wrth benderfynu ar gyfansoddiad y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gweler paragraffau 7.21-7.29 y canllaw). Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r adran hon o'n canllaw:

13. **Ffactor 5: Cynrychiolaeth leyg wrth wneud penderfyniadau. A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion barhau i sicrhau cynrychiolaeth leyg ar ryw adeg yn y broses o wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer?** [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
14. **Ffactor 6: Defnyddio penderfynyddion unigol. A ydych yn cytuno y gallai rhai achosion addasrwydd i ymarfer elwa ar fwy nag un penderfynwr?** [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
15. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllawiau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y rhai sy'n gwneud penderfyniadau? (Gweler paragraff 7.29) [Blwch testun rhydd]**

Yn ein canllaw, rydym yn nodi rhai ffactorau y dylai rheolyddion eu hystyried wrth gyhoeddi penderfyniadau archwilwyr achos (gweler paragraffau 7.30 – 7.34 y canllaw). Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r adran hon o'r canllaw:

16. **Ffactor 7: cyhoeddi penderfyniadau archwilwyr achos. A ydych yn cytuno mai'r pwyntiau bwled yn y canllawiau o dan y ffactor hwn yw'r rhai cywir?** [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
17. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**

Yn ein canllaw, rydym yn nodi rhai ffactorau y dylai rheolyddion eu hystyried er mwyn hyrwyddo proses canlyniadau derbyniol deg a thryloyw (gweler paragraffau 7.35 – 7.44 y canllawiau). Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r adran hon o'n canllaw:

18. **Ffactor 8: Hyrwyddo proses canlyniadau teg ac effeithiol a dderbynnir. A ydych yn cytuno mai'r pwyntiau bwled a restrir o dan y ffactor hwn yn y canllaw yw'r rhai cywir?** [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
19. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]**

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud ag effaith ein canllaw:

20. **Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r canllaw yn debygol o'i gael arnoch chi ac/neu eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion. [Blwch testun rhydd]**
21. **A oes unrhyw agweddau o'n cynigion y teimlwch allai arwain at driniaeth wahanol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 [Oes/nac oes/ddim yn gwybod]:**

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil

- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, rhowch fanylion pellach, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn [Blwch testun rhydd].

► Canllawiau drafft: Llunio rheolau

Fel rhan o raglen diwygio deddfwriaethol y Llywodraeth, ni fydd y Cyfrin Gyngor bellach yn cymeradwyo rheolau rheolyddion na newidiadau i reolau. Yn lle hynny, bydd rheolyddion yn cael pwerau newydd i wneud a diwygio eu rheolau gweithredol eu hunain. Bydd y rheolau hyn yn diffinio sut y bydd rheolyddion yn cyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys cofrestru, addasrwydd i ymarfer a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant.

Bydd rheolyddion yn datblygu eu rheolau eu hunain ac yn ymgynghori arnynt fel y bo'n briodol. Bydd angen iddynt hefyd ddatblygu eu proses lywodraethu eu hunain ar gyfer cymeradwyo eu rheolau.

Amlinellodd yr ymgynghoriad yn gynharach eleni ar reoleiddio Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygol y pwerau y bydd gan reolyddion i lunio rheolau ar draws eu swyddogaethau rheoleiddio. Yn ogystal â bod yn ofynnol iddynt gyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r amcan trosfwaol o ddiogelu'r cyhoedd, bydd hefyd yn ofynnol iddynt:

- gydymffurfio â darpariaethau ehangach sy'n ymwneud â thryloywder, atebolrwydd, cymesuredd a chysondeb a'r ddyletswydd i gydweithredu
- ystyried yr egwyddor y dylid targedu gweithgarwch rheoleiddio
- cydymffurfio â gofynion penodol ynghylch ymgynghori.

Rydym wedi cynhyrchu ein canllaw arfer da i helpu rheolyddion i wneud defnydd effeithiol o'u pwerau llunio rheolau newydd mewn modd sy'n blaenoriaethu amddiffyn y cyhoedd. Mae'n cynnwys rhai egwyddorion i arwain yr hyn y dylai rheolau da anelu at ei wneud neu fod, a'r broses llunio rheolau. Mewn meysydd penodol lle mae gennym fynediad at dystiolaeth neu wybodaeth a fydd, yn ein barn ni, yn helpu'r rheolyddion i roi'r egwyddorion ar waith, rydym wedi cynnig canllawiau manylach.

Rydym wedi datblygu ein canllawiau ochr yn ochr â datblygiad y Gorchymyn AAPA drafft a gwaith sy'n cael ei wneud gan rai rheolyddion i ddatblygu eu rheolau. Rydym wedi ceisio, cyn belled ag y bo modd, i dynnu ar yr arfer da sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwaith gan y GMC a'r NMC, a gwybodaeth ac arfer gorau o sectorau eraill ac ymchwil, yn enwedig ar bwnc cysondeb rheoleiddio.

Ni fydd ein canllaw yn gymwys yn ôl-weithredol i waith llunio rheolau a wnaed eisoes. Fodd bynnag, ein bwriad yw y dylai'r canllaw gael ei ddefnyddio nid yn unig ar gyfer y rownd gyntaf o lunio rheolau gan y rheolyddion hynny sydd yn y rheng flaen ar gyfer diwygio, ond gan y rhai sy'n dod yn ddiweddarach ac ar gyfer newidiadau a

diwygiadau dilynol i reolau, felly bydd yn ddefnyddiol y tu hwnt i'r cyfnod cynnar hwn o weithgaredd. Gallwch weld canllawiau drafft y [yma](#).

► Cwestiynau ymgynghori ar y canllawiau drafft ar Lunio rheolau

22. A ydych yn meddwl y bydd ein canllawiau yn helpu rheolyddion i arfer eu pwerau llunio rheolau yn effeithiol? [Blwch testun rhydd]

Yn ein canllaw rydym yn amlinellu egwyddorion i helpu rheolyddion i ddefnyddio eu pwerau llunio rheolau mewn ffordd sy'n blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd ac yn sicrhau dull arfer da o lunio rheolau (gweler 4.1-4.3 o'r canllawiau drafft ar lunio rheolau). Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r egwyddorion hyn:

23. A ydych yn meddwl mai'r egwyddorion a amlinellwyd yw'r rhai cywir? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

24. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr egwyddorion a restrir neu unrhyw egwyddorion ychwanegol i'w hawgrymu? [Blwch testun rhydd]

Yn ein canllawiau rydym yn rhoi cyngor ar sicrhau cysondeb rhwng prosesau gwahanol reolyddion ac osgoi gwahaniaethau na ellir eu cyfiawnhau (gweler 6.1 – 6.11 ac Atodiad A y canllawiau drafft ar lunio rheolau). Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r adran hon:

25. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau ar gysondeb rhwng rheolyddion (osgoi gwahaniaeth na ellir ei gyfiawnhau) yn ddefnyddiol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

26. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

Yn ein canllaw rydym yn rhoi cyngor ar ymgynghori ar reolau a chanllawiau/polisïau cysylltiedig (gweler 7.1-7.12 y canllawiau drafft ar lunio rheolau). Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r adran hon:

27. A ydych yn meddwl bod y canllawiau ar ymgynghori yn ddefnyddiol? [Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod]

28. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

Yn ein canllaw rydym yn rhoi cyngor ar lywodraethu ar gyfer cymeradwyo rheolau a chanllawiau/polisïau cysylltiedig (gweler 8.1-8.4 y canllawiau drafft ar lunio rheolau). Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r adran hon:

29. A ydych yn meddwl bod y canllawiau ar lywodraethu yn ddefnyddiol? [Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod]

30. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud ag effaith ein canllaw:

31. **Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai ein canllaw yn debygol o'i gael arnoch chi ac/neu eich sefydliad neu ystyriaethau y dylem eu hystyried ystyriaeth wrth asesu effaith y cynigion. [Blwch testun rhydd]**
32. **A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahanol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 [Oes/nac oes/ddim yn gwybod]:**

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, rhowch fanylion pellach, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

Dyma ddiwedd cwestiynau'r ymgynghoriad.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rydym yn croesawu ymatebion i unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

Ymatebwch trwy gwblhau ein harolwg ar-lein sydd ar gael yn y ddolen hon:

<https://www.surveymonkey.com/r/JM6XFQV> neu drwy anfon ymateb ysgrifenedig i'n cwestiynau yn y ddogfen hon at: policy@professionalstandards.org.uk. Cofiwch gynnwys rhifau'r cwestiynau a ddarparwyd.

Rydym yn ffafrio ymatebion trwy'r arolwg ar-lein neu e-bost. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
16-18 New Bridge Street,
Llundain,
EC4V 6AG

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at info@professionalstandards.org.uk.

Dychwelwch eich ymateb atom erbyn 5pm dydd Llun 15 Ebrill 2024.

Cyfrinachedd

Byddwn yn rheoli gwybodaeth a roddwch yn unol â'n polisïau diogelwch gwybodaeth. Gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan:

https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/privacy-notice.pdf?sfvrsn=ee1f7220_2

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod y wybodaeth yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partion.

Ein Proses Ymgynghori

Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.¹²

Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion.
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau.
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y bobl rydym yn ymgynghori â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd.
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd.
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion.
- Sicrhau bod ein hymgynghoriad yn targedu'r ystod lawnaf o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniom a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw wedi bod yn bosibl.

Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu sylwadau penodol ynghylch y broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â:

Christine Braithwaite
Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
16-18 New Bridge Street,
Llundain,
EC4V 6AG.
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040
E-bost: christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

¹² Swyddfa'r Cabinet. 2016 *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: [Consultation principles 2016 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) cyrchwyd 20 Gorffennaf 2022.

Atodiad A

Cwestiynau'r ymgynghoriad yn llawn:

1. Disgrifiwch eich sefydliad neu rôl [aelod o'r cyhoedd/rheoleiddiwr statudol iechyd neu ofal/Cofrestr Achrededig/corff iechyd neu ofal arall/corff cynrychioli cleifion/aelod cofrestredig corff statudol iechyd neu ofal/ymarferydd Cofrestr Achrededig/cymdeithas broffesiynol/arall]
2. Rhowch enw eich sefydliad, neu eich enw os ydych yn ymateb fel unigolyn.
3. Bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad canlyniad yr ymgynghoriad. Gall unrhyw sylwadau a wnewch gael eu cynnwys ond byddant yn cael eu gwneud yn ddiennw oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich enw chi/enw eich sefydliad. A ydych yn fodlon i'ch enw chi/enw eich sefydliad gael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiadau cyhoeddedig? [Ydw/nac ydw]
4. A ydych yn meddwl y bydd ein canllawiau addasrwydd i ymarfer yn helpu rheolyddion i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau a dderbynnir, a'u defnyddio mewn ffordd sy'n deg, yn dryloyw ac yn diogelu'r cyhoedd? [Blwch testun rhydd]
5. Ffactor 1: 'A yw'r unigolyn cofrestredig wedi methu â derbyn y canfyddiadau a/neu'r nam?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn ein canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]
7. Ffactor 2: 'A oes anghydfod ffeithiol/gwrthdaro tystiolaeth na ellir ond ei brofi'n deg mewn gwrandawriad?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
8. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]
9. Ffactor 3: 'A yw cymhlethdod yr achos yn awgrymu y gallai gwrandawriad fod yn fuddiol?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]
10. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn, neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]
11. Ffactor 4: 'A fyddai'n fuddiol ac yn gymesur profi mewnwelediad mewn gwrandawriad?' A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid datrys achos gan ddefnyddio canlyniad derbyniol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

12. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffactor hwn neu'r pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]

13. Ffactor 5: Cynrychiolaeth leyg wrth wneud penderfyniadau. A ydych yn cytuno y dylai rheolyddion barhau i sicrhau cynrychiolaeth leyg ar ryw adeg yn y broses o wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

14. Ffactor 6: Defnyddio penderfynyddion unigol. A ydych yn cytuno y gallai rhai achosion addasrwydd i ymarfer elwa ar fwy nag un penderfynwr? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

15. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllawiau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y rhai sy'n gwneud penderfyniadau? (Gweler paragraff 7.29) [Blwch testun rhydd]

16. Ffactor 7: cyhoeddi penderfyniadau archwilwyr achos. A ydych yn cytuno mai'r pwyntiau bwled yn y canllawiau o dan y ffactor hwn yw'r rhai cywir? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

17. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]

18. Ffactor 8: Hyrwyddo proses canlyniadau teg ac effeithiol a dderbynnir. A ydych yn cytuno mai'r pwyntiau bwled a restrir o dan y ffactor hwn yn y canllaw yw'r rhai cywir? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

19. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y pwyntiau bwled a restrir yn y canllaw o dan y ffactor hwn? [Blwch testun rhydd]

20. Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r canllaw yn debygol o'i gael arnoch chi ac/neu eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion. [Blwch testun rhydd]

21. A oes unrhyw agweddau o'n cynigion y teimlwch allai arwain at driniaeth wahanol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 [Oes/nac oes/ddim yn gwybod]:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, rhowch fanylion pellach, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn [Blwch testun rhydd].

22. A ydych yn meddwl y bydd ein canllawiau yn helpu rheolyddion i arfer eu pwerau llunio rheolau yn effeithiol? [Blwch testun rhydd]

23. A ydych yn meddwl mai'r egwyddorion a amlinellwyd yw'r rhai cywir? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

24. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr egwyddorion a restrir neu unrhyw egwyddorion ychwanegol i'w hawgrymu? [Blwch testun rhydd]

25. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau ar gysondeb rhwng rheolyddion (osgoi gwahaniaeth na ellir ei gyfiawnhau) yn ddefnyddiol? [Ydw/nac ydw/ddim yn gwybod]

26. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

27. A ydych yn meddwl bod y canllawiau ar ymgynghori yn ddefnyddiol? [Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod]

28. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

29. A ydych yn meddwl bod y canllawiau ar lywodraethu yn ddefnyddiol? [Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod]

30. A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr adran hon o'r canllawiau? [Blwch testun rhydd]

31. Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai ein canllaw yn debygol o'i gael arnoch chi ac/neu eich sefydliad neu ystyriaethau y dylem eu hystyried ystyriaeth wrth asesu effaith y cynigion. [Blwch testun rhydd]

32. A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahanol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 [Oes/nac oes/ddim yn gwybod]:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os ydych wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, rhowch fanylion pellach, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

Atodiad B

Mesur llwyddiant yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer diwygio

Credwn y bydd y diwygiadau arfaethedig yn gadarnhaol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol os ydynt yn creu:

- Mwy o gydlynw yn y system reoleiddio i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol modern, amlddisgyblaethol
- Mwy o weithio rhyngbroffesiynol, a hyblygrwydd rhwng proffesiynau
- Mwy o ystwythder i reolyddion fel y gallant addasu i risgiau newydd
- Cydbwysedd diogel a phriodol o ran atebolrwydd a hyblygrwydd yng ngwaith y rheolyddion proffesiynol
- Modd cymesur, a llai gwrthwynebol o ddelio gyda phryderon ynghylch gweithwyr proffesiynol gyda'r mesurau diogelu'r cyhoedd angenrheidiol
- System deg o reoleiddio sy'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer unigolion cofrestredig yn ogystal â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth
- Ar y cyfan, fframwaith diogelu'r cyhoedd mwy effeithiol sy'n gwrando ar gleifion ac yn ymateb i'w pryderon, ac y mae'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn hyderus ohono.
- Bydd y diwygiadau hyn wedi siomi'r cyhoedd os byddant yn arwain at:
- Lefelau is o ddiogelwch i'r cyhoedd, hyder y cyhoedd neu safonau proffesiynol
- Llai o dryloywder neu atebolrwydd ar gyfer rheolyddion
- Yr un cymhlethdod neu fwy o gymhlethdod o safbwynt y cyhoedd, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol
- Anawsterau parhaus ar gyfer rheolyddion wrth weithio gyda'i gilydd
- Heriau parhaus i gydweithio agosach rhwng gweithwyr proffesiynol
- Cynnydd arwyddocaol mewn costau heb fod gwelliannau mewn diogelu'r cyhoedd yn cyfiawnhau hynny.